



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 51: wythnos 10/01/2022

Cynnydd Wythnosol (3 - 10 Ionawr)



Yn dilyn yr her a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi cynnig brechiad Atgyfnerthu i unrhyw un sy'n gymwys i'w chael drwy ystod o ddulliau, gan gynnwys llythyrau, negeseuon testun, opsiynau galw heibio ac archebu ar-lein. Yn ardal ein Bwrdd Iechyd, gan weithio ar y cyd â Meddygfeydd Teulu, rhoddom 100,285 o frechiadau (dos cyntaf, ail ddos a ddos atgyfnerthu) yn y 14 diwrnod buom ar agor rhwng 16 a 31 Rhagfyr (wrth fod ar gau am 2 ddiwrnod dros Ŵyl y Nadolig).

Byddwn yn anfon llythyr a/neu neges destun at bawb nad oeddynt yn medru mynychu eu hapwyntiadau'r mis hwn er mwyn eu hail-wahodd i'w hapwyntiad brechiad Atgyfnerthu, ac er mwyn cynnig apwyntiadau ail ddos ar gyfer plant rhwng 12-15 oed sydd wedi cael eu brechiad cyntaf o leiaf 12 wythnos yn ôl (ym mis Hydref). Gwnewch bob ymdrech i fynychu eich apwyntiad yn ôl yr amser neilltuol.

CYNNYDD BRECHIAD ATGYFNERTHU

(hyd at 10pm, 09/01/2022)

GRŴP	CYFANSWM	% O BOBLOGAETH
80 oed a hŷn	25,644	89.2%
75-79 oed	21,207	89.7%
70-74 oed	29,239	89.4%
65-69 oed	28,688	87.9%
60-64 oed	32,307	85.2%
55-59 oed	37,169	82.6%
50-54 oed	34,840	78.4%
40-49 oed	51,730	68.3%
30-39 oed	43,211	51.7%
18-29 oed	34,818	40.4%
Grwpiau mewn perygl	52,358	76.4%

Datganiad gan y Gweinidog Iechyd

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan, ddatganiad ynghylch y rhaglen brechiadau Atgyfnerthu, dywedodd, "Mae ymateb y cyhoedd wedi bod yn ardderchog, a dymunwn ddiolch i bawb a fynychodd eu hapwyntiad ac a dderbyniodd y cynnig i gael eu brechiad atgyfnerthu.

Diolch yn fawr iawn i'n timau GIG Cymru hefyd, eu sefydliadau partner a'r holl wirfoddolwyr sydd wedi gweithio'n ddiflino drwy adeg mor brysur i gyflawni'r dasg aruthrol hon.

Roeddem yn falch o weld cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn dod i gael eu dos cyntaf ac ail ddos o'r brechiad dros y Nadolig. Diolch i bawb sy'n parhau i ddod i gael eu brechu."

Cyngor newydd ar frechu i blant a phobl ifanc gan y JCVI

Bydd plant 5 i 11 oed, sydd mewn grŵp risg clinigol neu sy'n gyswllt cartref â rhywun (o unrhyw oedran) sydd yn imiwnoataliedig, yn cael cynnig cwrs brechu sylfaenol. Mae gwaith ar y gweill i adnabod preswylwyr o fewn y grŵp hwn a byddwch yn derbyn llythyr i fynychu'r clinig erbyn diwedd mis Ionawr./dechrau Chwefror.

Brechiadau Atgyfnerthu

Mae'r JCVI wedi dweud y dylid cynnig brechiadau atgyfnerthu i bobl 16 i 17 oed; 12 i 15 sydd mewn grŵp risg clinigol neu sy'n gyswllt cartref â rhywun (o unrhyw oedran) sy'n imiwnoataliedig; a 12 i 15 oed sydd ag imiwnedd difrifol ac sydd wedi cael trydydd dos sylfaenol. Anfonir llythyrau apwyntiadau yn y post pan fydd grwpiau'n gymwys.

<https://www.gov.uk/government/news/jcvi-issues-new-vaccination-advice-for-children-and-young-people>

Cwestiynau Cyffredin ynghylch Brechiad Atgyfnerthu Covid-19

Pryd fyddaf yn cael fy mrechiad atgyfnerthu?

Ni allaf fynychu fy apwyntiad gan fod gen i Covid - beth ddylwn ei wneud?

Nid wyf wedi cael dos cyntaf o'r brechiad, a gaf i alw heibio i ganolfan frechu?

Gallwch weld atebion i'r holl gwestiynau hyn, a mwy, ar y dudalen Cwestiynau Cyffredin ynghylch y Brechiad Atgyfnerthu ar ein gwefan yn

<http://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/covid-19-vaccination-faqs/>

Gall menywod beichiog fynychu ein canolfannau brechu heb apwyntiad ar gyfer unrhyw un o'u brechiadau



Os ydych dros 20 wythnos yn feichiog, ewch i flaen y ciw, rhwch gwobod i staff eich bod chi yno a chewch eich blaenoriaethu.

Ewch i'n gwefan am fanylion ein Canolfannau Brechu:

<https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/ein-canolfannau-brechu/>



Cau ffordd ger Swyddfeydd Cyffredinol, Glynabwy

Rhwng 4 Ionawr a 1 Gorffennaf 2022, bydd rhan o'r ffordd ger ein canolfan frechu yn y Swyddfeydd Cyffredinol yng Nglynabwy yn cael ei chau.

Mae Bwa Mawr 200 mlwydd oed y dref yn cael ei atgyweirio, felly bydd rhan o Steel Works Road (B4485) sy'n mynd o dan y bont, yn cael ei chau, o'r ddau gyfeiriad, o Lime Avenue i Glwb Pêl-droed Glynabwy. Mae arwyddion gwyriad wedi eu gosod.

Mae Gwybodaeth ynghylch Pas Covid y GIG ar gael yn
<https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section70608>
Neu drwy ffonio 0300 303 5667

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>